Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 14eg o Chwefror 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Edward Thomas (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Robert Jones.
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Rebecca Butcher, Mr Roger Phillips (Clerc Tref)

Cof 275 / Chwef / 18 Datganiadau o Fuddiant Dim

Cof 276 / Chwef / 18 Cyfrifon i'w Talu

Cyfrifon i'w Talu	Net	TAW	Cyfanswm
Hugh Gwynne DD 604PP	£ 100.00	£ 20.00	£ 120.00*
Hugh Gwynne DD604PlQ	£ 100.00	£ 20.00	£ 120.00*
CGGC (gwein cyflogres Ionawr)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Relm Signs (baneri Dathlu Dewi)	£ 122.00	£ 24.40	£ 146.40*
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£ 115.00		£ 115.00*
Thorne Moore (taflenni Dathlu Dewi)	£ 104.00		£ 104.00*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 144.60		£ 44.60*
JW Thomas & Sons (argraffu'r cylchlythyr)	£ 280.00		£ 280.00*
Morgan & Morgan (inc)	£ 21.86	£ 4.37	£ 26.23*
Dyfed Alarms (DD 650)	£ 190.00	£ 38.00	£ 228.00*

(*talu'r cyntaf o ddau wiriad taledig)*
* - Bacs # - Siec
Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 277 / Chwef / 18 Incwm a dderbyniwyd ers y 9fed o Ionawr 2018 hyd yn hyn

CSG (Parc Penlan)	£ 8,265.00
Llog Banc	£ 33.63
Ymddiriedolaeth Brown Hill	£ 20,000.00

Cof 278 / Chwef / 18 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 14/02/18)	£ 51,687.61
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 13/ 02/18)	£ 1,991.88
Bond Adnau Llog Uchel	£ 30,000.00
Cyfrif Treuliau'r Maer	£ 1,870.31

Cof 279 / Chwef / 18 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad ar y Gwiriad Chwarterol.
   Cynhaliodd y Cyng. Edward Thomas y gwiriad hwn ar y 13eg o Chwefror, a gwiriwyd yr holl wiriadau a dangoswyd eu bod yn gywir.
2. Dywedodd y Swyddog Cyllid wrth y cyfarfod fod gan y tri swyddog hawl i godiad cyflog o 1%, oherwydd y rhoddwyd y codiad diwethaf yn 2016. Dylid ôl-ddyddio'r codiad o 1% i'r 30ain o Ebrill 2017, cost cyflogres ychwanegol o £130 y flwyddyn. Mae'r codiad yn dilyn canllawiau NJC. Cynigodd y Cyng. Gordon Kilby fod y codiad yn cael ei awdurdodi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Robert Jones.
   Roedd pawb o blaid.
3. Cyfarfod o'r Is-grŵp Trosglwyddo Asedau ar y 13eg o Chwefror 2018.
   O'r Data ar y Gyllideb Trosglwyddo Asedau, nododd y Swyddog Cyllid fod rhywfaint o ddiffyg yn y system nad oedd yn ei ddisgwyl yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, dywedodd Mr Plummer ei bod yn bwysig bod cronfa cyfalaf wrth gefn yn cael ei chario ymlaen i gynnal cyllideb gynaliadwy. Roedd hyn yn ofynnol er mwyn mynd i'r afael â galwadau anhysbys yn y dyfodol. Dywedodd Mr Plummer fod codi sbwriel yn y ddau Barc, gan gontractwr y Cyngor, yn eitem ddrud ac argymhellodd bod y Cyngor yn dod o hyd i syniad creadigol i leihau'r gost.

Cof 280 / Chwef /18 Doedd dim Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

Cof 281 / Chwef / 18 Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Cyfeiriodd y Cadeirydd, y Cyng. Edward Thomas, at y tendrau a anfonwyd allan gan y Swyddog Technegol.

Argymhellodd yr Is-grŵp Trosglwyddo Asedau bod y tendrau canlynol yn cael eu derbyn:-

a) Cyflwynwyd pedwar tendr i atgyweirio'r ffens ym Mharc Le Conquet. Argymhellir bod Tendr Hugh Evans, am £1,530, yn cael ei dderbyn. Cytunwyd.
b) Cyflwynwyd pedwar tendr i ddarparu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ym Mharc Le Conquet. Argymhellwyd bod Tendr Action Surveillance, am £3,781, yn cael ei dderbyn. Derbyniwyd.
c) Cyflwynwyd pedwar tendr i adfer wal y cwrt tenis ym Mharc Le Conquet. Argymhellwyd bod Tendr Tommy Bristow, am £4,050, yn cael ei dderbyn. Derbyniwyd.
   Roedd pawb o blaid.

Oherwydd bod y gwaith hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan grant Cymunedol CSG, sy'n rhaid ei wario erbyn yr 31ain o Fawrth 2018, cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Swyddog Technegol yn cael awdurdod i osod archebion i gwblhau'r gwaith uchod. Bydd Mr Davies yn anfon copïau o'r tri thendr a dderbyniwyd i CSG.

Cof 282 / Chwef / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.31yh.